# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 24 Mawrth 2025

## SL(6)597 – Rheoliadau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 2 (cyrff etholedig a'u haelodau) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ("**Deddf 2024**") yn diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel") ac yn darparu i'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Panel gael eu cyflawni gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o gychwyn y darpariaethau hynny yn Neddf 2024.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024

**Fe'u gwnaed ar:** 06 Mawrth 2025

**Fe'u gosodwyd ar:** 07 Mawrth 2025

**Yn dod i rym ar:** Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)